| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Chwefror 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson – Hill / Richard Weigh** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh / Rod Urquhart** |
| **Teitl:** | **Treth y Cyngor 2016/17 a Materion Cysylltiedig** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod cyllideb y Cyngor ar 26 Ionawr 2016 mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau pellach mewn ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2016/17.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio i ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru *a'r* Cynghorau Tref/Cymuned a datgan lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

3.2 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel yn adran 3 Atodiad A.

3.3 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel yn adran 4 Atodiad A.

3.4 Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 i bob un o'r categorïau anheddau fel y dangosir yn Atodiad C.

3.5 Bod y lefel o ostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B a C fel y pennir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarth Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei osod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 sef tymor y Cyngor hwn gyda'r cafeat a bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth neu amodau lleol.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Oherwydd y gofyniad i gymeradwyo'r penderfyniad a'r argymhellion yn y modd a bennwyd, mae Atodiad A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, ni fydd yr Awdurdod yn gallu codi biliau Treth y Cyngor, felly ni fydd incwm sydd ei angen i ariannu Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gost o godi a dosbarthu gofynion Treth y Cyngor yn cael ei gwrdd o fewn adnoddau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Ymgymerwyd ag asesiadau o effaith lle y bo'n briodol fel rhan o broses cyllideb y cyngor.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae lefel Treth y Cyngor yn ffurfio rhan o'r gyllideb a bennwyd gan y Cyngor. Cafodd y gyllideb ei datblygu dros broses o ddwy flynedd gyda chyfranogiad sylweddol gan aelodau a swyddogion a thrwy gyfres o un ar bymtheg o weithdai i aelodau. Roedd ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o'r broses ac ymgynghori parhaus gyda staff ac undebau llafur. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn goruchwylio proses y gyllideb ac mae grŵp tasg a gorffen yn asesu effaith barhaus penderfyniadau cyllidebol. Cymeradwyodd y Cyngor Llawn y gyllideb ar 26 Chwefror 2016.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i osod Treth y Cyngor. Mae'r rheoliadau yn rhagnodol ynghylch sut mae hyn yn cael ei wneud ac mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hynny.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg ariannol o fethu â chasglu incwm Treth y Cyngor. Mae cyfraddau casglu yn uchel ac yn cael eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008